# Cytûn – Churches together in Wales
# New environmental regulations in Wales: Updated note for churches

**This note is provided to assist churches in Wales.**
**It is not intended to be legal advice, and should not be regarded as such.**

1. **Prohibition of the supply of some single-use plastics from 30 October 2023**

Many churches are already voluntarily reducing or eliminating their use of single-use plastic. Earlier this year, Senedd Cymru passed the Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Act 2023. On 24 October 2023, the Senedd decided that most – but not all – of the provisions of that Act would come into force on **30 October 2023**.

From that date it has been illegal to supply (**whether for sale or free of charge**) certain single-use plastic items. These are:

- Single-use plastic plates – this includes paper plates with a laminated plastic surface
- Single-use plastic cutlery – for example forks, spoons, knives
- Single-use plastic drinks stirrers
- Cups made of expanded or foamed extruded polystyrene
- Takeaway food containers made of expanded or foamed extruded polystyrene
- Single-use plastic balloon sticks
- Single-use plastic-stemmed cotton buds
- Single-use plastic drinking straws – with exemptions so people who need them to eat and drink safely and independently can continue to have them

This covers all single-use plastic versions of these products, including those that are made of other materials but laminated with plastic, and plastic items that claim to be biodegradable or compostable. The use of such terminology on the product or its packaging will not make it legal.

For many churches, a return to using traditional crockery and cutlery is the simplest response. But in some settings this may not be possible. In that case, churches must use either reusable items made from other materials (which can include items made of reusable hard plastic), or with disposable versions made of non-plastic materials, such as paper, wood or cardboard.

It is the responsibility of the local church and the users of its premises (and ultimately of the trustees of that church, in accordance with the relevant denominational structure) to ensure that these rules are followed.

Possessing single-use plastic items will not be an offence, but as they can no longer be supplied - even free of charge - all items (other than plastic straws required for use by those who have a specific need to use them to eat or drink) should be disposed of responsibly. Some local authorities or other recycling agents (such as some supermarkets) may be able to take some or all of these items for recycling – please enquire locally.

Additional information can be found in the Welsh Government guidance document. It is intended to extend the ban to additional products in due course, and the Act allows Welsh Ministers to add to this list.

Churches may find it helpful to be reminded of why this ban has been introduced – see the websites of the Marine Conservation Society and Surfers Against Sewage.

2. **Separating waste for recycling and tightening food waste regulations from 6 April 2024**

Most churches are already conscientious about recycling as much of their waste as possible. It is, of course, good practice to reduce the amount of waste you send to recycling by finding ways to re-use items safely, or turn them into something else – many church children's groups enjoy junk modelling, and will already, for example, use empty egg boxes for a multitude of games and so on.

From 6 April 2024, all non-domestic premises – including churches, community halls, etc – will be required to sort their waste for recycling more thoroughly. This is to ensure the waste can actually be recycled – mixed waste can cause cross-contamination and prevent recycling.

The Waste Separation Requirements (Wales) Regulations 2023**,** approved by the Senedd on November 28 2023, require that waste for recycling will need to be separated by the owner/manager of premises, or by the operator of an activity, into six separate containers:

1. Glass
2. Plastic, metal and cartons and other similar packaging – but remember that the supply of many single-use plastic items was banned on 30 October 2023
3. Paper and card
4. Food waste (see further below)
5. Unsold* small electrical equipment
6. Unsold* textiles

* "Unsold" is defined as follows: *an unused consumer product, in a factory, retail premises, wholesaler, warehouse or other premises, that has not been sold to a consumer or has been sold and returned by a consumer* so these categories are unlikely to apply initially to churches or charity shops which sell second-hand goods. However, Welsh Government's stated intention is to extend the requirement to recycle to **all** textiles within three years, and **all** small electrical equipment within two years, so churches should start to get ready for this change now.

It will be illegal to send waste in any of the above categories (or "sub-fractions", as they are called in the regulations) to incineration or landfill, and it will be illegal to send wood waste to landfill (although it can still be incinerated).

The full definitions of each of the six categories, as contained in the regulations, are included as an appendix below. Further guidance is available on the Welsh Government website. There is further detail on the exact definitions of these materials, what to do with waste made of mixtures of different materials, and so on in the **code of practice.** The Code also covers a number of other practical matters not referred to directly in the regulations. The Code *is admissible as evidence in any legal proceedings and must be taken into account by a court in determining any question to which it appears to the court to be relevant* (para 1.5 – all references of this form in this note are to this Code). **Managers and Trustees of premises should therefore familiarise themselves with this Code.**

Waste presented for recycling must be **clean**. The Code states: *You must ensure that the packaging items placed in each recyclable waste stream are empty of their contents and are clean. Other non-packaging items need to be free of significant contamination. The degree of acceptable contamination is likely to vary based on the requirements of different reprocessors and their requirements should be followed to avoid waste collectors rejecting contaminated loads. Your waste collector should be able to provide advice on this.* (para 7.7). **It is important to note that presenting uncleaned recyclable waste in the residual (non-recyclable) waste stream is not an acceptable alternative to cleaning it for collection.** Premises managers will need to take this into account and allow additional time for this process prior to collection day.

**Placing the incorrect waste in the incorrect container could lead to a fixed penalty notice (fine) being issued** by Natural Resources Wales. If the matter goes to court, a potentially unlimited fine could result.

However, Welsh Government say that the intention is to remind and educate first before applying penalties. The managers and trustees of multi-use premises – such as many church buildings – should therefore begin to ensure that all users are aware of the new regulations and how to recycle waste in future **in advance of April 2024.**

The Code of Practice notes that Natural Resources Wales may carry out spot checks on premises, and says that **appropriate records must be kept** (para 7.22) *This evidence could be documents that you already have a legal requirement to keep, such as under the waste duty of care which requires you to produce and keep waste transfer notes, which will show when, how and who collected the waste and waste types. The notes must be kept for at least two years. Other evidence could include agreements or contracts that you may have in place with a waste management company, or the contracts you have with your customers if you are a collector, which help demonstrate that waste is being separately collected in a compliant way.* (para 7.23). Given that many places of worship and community facilities operate more informally than is envisaged by the Code, it is important that managers and Trustees review their record keeping and ensure that records are kept for two years.

**Hazardous waste** (such as batteries, solvents, pesticides, and so on) will – as now –need to be disposed of safely and separately from the recycling containers (para 6.8).

**Definitions of household and commercial waste**

Places of worship (including church and chapel halls and the like used in connection with a place of worship) are eligible for free household waste collection under the Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012. For churches, the only exceptions are likely to be church cafes or shops which operate on a commercial basis, and residential centres, which need to arrange commercial waste collection. The 2012 regulations remain in force in Wales.

However, even those premises eligible for free household waste collection will need to separate their waste into six containers as described above. It will be for the local authority to determine how these are collected – whether free of charge by its commercial waste collection service, or (as now in most cases) by its household waste collection, and how to deal with the differences in separation requirements between domestic premises (homes) and these new regulations.

Churches may be approached by local authorities seeking to transfer them to their commercial waste collection service from April 2024. If so, **churches should ensure that this collection will continue to be free of charge, and if necessary refer the local authority to the 2012 regulations**.

**Tenants and hirers of buildings**

Many church premises are, in whole or in part, sub-let to tenants. The Code states *For a site with multiple business occupancy … where there is a single contract for waste collection managed by the owner or a facilities management agency, we would expect the tenancy agreement to include a requirement for the parties to comply with the separation requirements* (para 5.11). The Code does not go into detail regarding Hiring Agreements or similar, which are used by many church premises. However, the principle stated in the Code is clear: *You are responsible for all wastes that are presented for collection from your premises. This includes, but is not limited to, wastes produced by staff, visitors and contractors* (para 7.12). This means that **detailed engagement will be necessary with all users of your buildings**, and you may wish to consider including clauses relating to separation of waste into your hiring agreements.

**Bins and containers for waste**

The Code of Practice states *At the point you present your waste for collection (for example kerbside collection), in order to comply with the separation requirements you will need a separate container for each recyclable waste stream. This is not the case in respect of internal bins for occupiers, staff, visitors etc as it is recognised that in some circumstances this will not be practical or achievable. It is considered good practice*

*to provide separate containers for each recyclable waste stream wherever waste is collected on your premises.* (paras 7.14-7.15).

The Code makes the following specification with regard to the types of containers that can be used to present waste for collection: *These containers can be bins, bags, boxes, skips or other type of container as appropriate, taking into account the nature of the waste and the requirements of your waste collector. For example, flexible plastic bags may not be suitable for separating items with sharp edges, or that are very heavy. It is acceptable to use containers that are internally subdivided by a permanent physical barrier, for example a bin with two or more physically separate compartments. The containers used must be sufficiently durable to maintain the required separation during subsequent handling and management of the waste. It is recommended that compartments in a container are made of a solid construction rather than flexible plastic that is likely to rip open, which increases the risk that the contents will mix with other waste streams. When the separately presented waste streams are collected they must be kept separate and not mixed with other streams, or any other wastes.* (paras 7.3-7.4). There is also detailed guidance regarding the use of "survival bags" (with restrictions on how they may be used – para 7.5). The Code adds *Given that waste containers may need to be stored in publicly accessible locations, it is considered best practice to use lockable containers and to ensure these are kept locked to minimise the risk of accidental or intentional contamination* (para 7.8), and points out that the containers must be clearly labelled for collection. It is likely that different local authorities and other waste collectors will have slightly different detailed requirements, and **premises managers and Trustees should seek advice from their waste collector**, if it has not already been provided.

**External bins:** The Code states *litter collected by the Local Authority … from, typically, publicly accessible streets, pavements and open spaces, does not have to be presented separated when presented for collection. However, for the sake of a consistent approach and good practice it is recommended that separate litter bins for recyclable items are provided at any locations where litter bins are located so that Local Authorities can, wherever possible, arrange for litter to be recycled.* (para 5.7). However, where a bin is provided in a church garden, cemetery, play area or similar and the waste is then included in the church's waste collection (rather than collected directly by the local authority from the public space), its contents is covered by the separation requirements.

**Food waste**

The legal requirement to separate and recycle food waste will apply to premises that produce 5kg or more of food waste per week (if you produce less, it will be legal to put food waste in the general, non-recyclable, waste stream). However, it is good practice to separate and recycle all food waste, even small amounts, and we would therefore encourage churches to do so.

It is important to note that ***Food waste that is still in its packaging should be separated out into food waste and packaging****. Each material should then be put into the relevant recyclable waste stream container in accordance with the separation requirements. Where it is not reasonably practicable to de-package food waste in this way, the food waste still in its primary packaging (that is, the immediate packaging layer around the product) may be placed in the food waste stream, provided that (a) your food waste collector agrees to collect the waste on this basis and (b) the packaged food waste will be sent to an appropriate facility for re-use or recycling (which includes composting and anaerobic digestion).* (para 7.28, Cytûn's emphasis) The Code requires you to keep records of any food waste that is presented for collection still inside its packaging (para 7.29)

In addition, there will be a **ban on disposing any amount of food waste down the sink or into a public drain or sewer**. This applies not only to pouring food directly into the sink or drain, but means it will no longer be permitted to use equipment such as macerators, enzyme digesters or de-waterers. Churches should ensure that users of their premises are aware of this. You will not have to uninstall any such

equipment you have, but it is probably a good idea to uninstall or disconnect it, in order that it is not used by accident. **Discharge of food waste into the public drains or sewers will be an offence** and if this does happen, fixed penalty notices may be issued by the local authority to the premises or operator concerned**.** It is particularly important to **avoid the release of fats, oil and grease into the sewer** (para 7.34), and the Code recommends consideration be given to installing grease traps to prevent this.

## Appendix: Definitions of the waste sub-fractions
## (in all cases hazardous waste is excluded and must be disposed of separately)

**1. Glass**
- Glass bottles used as packaging
- Glass jars used as packaging

**2. Cartons and similar, metal and plastic**

**a) Cartons and similar**

Fibre-based composite packaging, being packaging material which is made of paperboard or paper fibres, laminated with low density polythene or polypropylene plastic, and which may also have layers of other materials, to form a single unit that cannot be separated by hand, limited to:
- Cartons
- Paper drinks cups with a low density polythene or polypropylene plastic layer
- Rigid paper containers

**b) Metal**
- Aluminium foil
- Aluminium food trays
- Aluminium tubes
- Steel and aluminium aerosols
- Steel and aluminium jar and bottle lids and caps
- Steel and aluminium tins and cans

**c) Plastic**
- Amorphous polyethylene terephthalate and crystallised polyethylene terephthalate plastic packaging comprising pots, tubs, trays, rigid and semi-rigid lids and clear cups except where the plastic contains carbon black pigment so that it is not near infrared detectable
- Amorphous polyethylene terephthalate plastic bottles except where the plastic contains carbon black pigment so that it is not near infrared detectable
- High density polyethylene and low density polyethylene packaging comprising pots, tubs, trays and rigid and semi-rigid lids except where the plastic contains carbon black pigment so that it is not near infrared detectable
- High density polyethylene and low density polyethylene plastic bottles, pumps and triggers except where the plastic contains carbon black pigment so that it is not near infrared detectable
- Polypropylene and expanded polypropylene plastic packaging comprising pots, tubs, trays, rigid and semirigid lids and clear cups except where the plastic contains carbon black pigment so that it is not near infrared detectable
- Polyethylene and polypropylene plastic packaging tubes except:<br>where they are less than 50x50mm,<br>where they have contained products used in construction works,<br>where they have a metal layer,<br>or where they are multi-monomer plastic
- Polypropylene plastic bottles, pumps and triggers except where the plastic contains carbon black pigment so that it is not near infrared detectable

**3. Paper and card**

All paper and card except:
Fibre-based composite packaging, being packaging material which is made of paperboard or paper fibres, laminated with plastic, and which may also have layers of other materials, to form a single unit that cannot be separated by hand
Hardback books
Padded polyethylene lined envelopes
Paper and card containing glitter or foil
Paper and card contaminated with food, paint, oil or grease
Paper and card that has been laminated
Paper towels, tissues, wet wipes, kitchen roll
Scratch cards
Shredded paper
Stickers and sticky notes
Till receipts
Wallpaper
Wax, silicone, greaseproof papers

4. **Food waste**
All food waste (with some very limited exceptions)

5. **Unsold small waste electrical and electronic equipment**
All unsold small waste electrical and electronic equipment (as defined above)

6. **Unsold textiles**
   - Clothing
   - Non-clothing textiles including carpets and carpet tiles, leisure textiles (such as tents and tarpaulins), mattresses, rugs, soft furnishings (such as curtains, bedsheets, blankets, duvets, pillows, towels), underlay
   - Packaging made from textiles

13.02.2024

**Parch./Revd Gethin Rhys**
**Swyddog Polisi / Policy Officer**
**Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Cytûn: Churches Together in Wales**
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court, Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
Mudol/Mobile: +44 (0)7889 858062
*Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg. Happy to communicate in Welsh or English*
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071

# Cytûn – Eglwysi ynghyd yng Nghymru
# Rheoliadau amgylcheddol newydd yng Nghymru
# Nodyn i eglwysi wedi'i ddiweddaru

**Darperir y nodyn hwn i gynorthwyo eglwysi Cymru.**
**Ni fwriedir iddo fod yn gyngor cyfreithiol, ac ni ddylid ei ystyried felly.**

1. **Gwahardd cyflenwi rhai plastigau untro o 30 Hydref 2023 ymlaen**

Mae llawer o eglwysi eisoes yn wirfoddol yn lleihau neu'n dileu eu defnydd o blastig untro. Yn gynharach eleni, pasiodd Senedd Cymru Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023. Ar 24 Hydref 2023, penderfynodd y Senedd y byddai'r rhan fwyaf – ond nid y cyfan – o ddarpariaethau'r Ddeddf honno yn dod i rym ar Hydref 30 2023.

O'r dyddiad hwnnw bu'n anghyfreithlon i gyflenwi (**boed trwy eu gwerthu neu eu rhoi am ddim**) rhai eitemau plastig untro, sef:

- Platiau plastig untro – mae hyn yn cynnwys platiau papur ag arwyneb plastig wedi'i lamineiddio
- Cytleri plastig untro – er enghraifft ffyrc, llwyau, cyllyll
- Trowyr diodydd plastig untro
- Cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren ymestynedig neu bolysteryn sbwng allwthiedig
- Cynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren ymestynedig neu bolysteryn sbwng allwthiedig
- Ffyn balŵn plastig untro
- Ffyn cotwm plastig untro
- Gwellt yfed plastig untro – gydag eithriadau fel y gall pobl sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol barhau i'w cael

Mae hyn yn cynnwys pob math o'r cynhyrchion hyn sy'n cynnwys plastig untro, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u gwneud o ddeunyddiau eraill ond sydd wedi'u lamineiddio â phlastig, ac eitemau plastig sy'n honni eu bod yn fioblastigau neu y gellir eu compostio. Ni fydd defnyddio terminoleg o'r fath ar y cynnyrch neu ar y pecyn yn eu gwneud yn gyfreithlon.

I lawer o eglwysi, dychwelyd at ddefnyddio llestri a chyllyll a ffyrc traddodiadol yw'r ymateb symlaf. Ond efallai na fydd hyn yn bosibl mewn rhai lleoliadau. Yn yr achos hwnnw, rhaid i eglwysi ddefnyddio naill ai eitemau y gellir eu hailddefnyddio wedi'u gwneud o ddeunyddiau eraill (a all gynnwys eitemau wedi'u gwneud o blastig caled y gellir ei ailddefnyddio), neu eitemau tafladwy wedi'u gwneud o ddeunyddiau nad ydynt yn blastig, fel papur, pren neu gardbord.

Cyfrifoldeb yr eglwys leol a defnyddwyr ei hadeiladau (ac yn y pen draw ymddiriedolwyr yr eglwys honno, yn unol â'r strwythur enwadol perthnasol) yw sicrhau bod y rheolau hyn yn cael eu dilyn.

Ni fydd meddu ar eitemau plastig untro yn drosedd, ond gan na ellir eu cyflenwi – hyd yn oed yn rhad ac am ddim – ar ôl 30 Hydref 2023, dylid cael gwared arnynt yn gyfrifol (ag eithrio gwellt yfed plastig ar gyfer y sawl sydd ag angen penodol amdanynt wrth fwyta neu yfed). Mae rhai awdurdodau lleol neu fannau ailgylchu eraill (fel rhai archfarchnadoedd) yn gallu mynd â rhai neu bob un o'r eitemau hyn i'w hailgylchu – holwch yn lleol.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Bwriedir ymestyn y gwaharddiad i gynhyrchion ychwanegol maes o law, ac mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr hon.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i eglwysi gael eu hatgoffa pam fod y gwaharddiad hwn wedi'i gyflwyno – gweler gwefannau'r Gymdeithas Cadwraeth Forol a Surfers Against Sewage (Saesneg yn unig).

2. **Gwahanu gwastraff ar gyfer ei ailgylchu a thynhau rheoliadau gwastraff bwyd o 6 Ebrill 2024**

Mae'r rhan fwyaf o eglwysi eisoes yn gydwybodol ynghylch ailgylchu cymaint o'u gwastraff â phosibl. Mae'n arfer da, wrth gwrs, i leihau faint o wastraff yr ydych yn ei anfon i'w ailgylchu drwy ddod o hyd i ffyrdd o ailddefnyddio eitemau'n ddiogel, neu eu troi at ddefnydd arall – mae llawer o grwpiau plant eglwysig yn mwynhau modelu sothach, a byddant eisoes, er enghraifft, yn defnyddio blychau wyau gwag ar gyfer llu o gemau ac ati.

O 6 Ebrill 2024, bydd yn ofynnol i bob eiddo annomestig – gan gynnwys eglwysi, neuaddau cymunedol, ac ati – ddidoli eu gwastraff i'w ailgylchu yn fwy trylwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir ailgylchu'r gwastraff – gall gwastraff cymysg achosi croeshalogi ac atal ei ailgylchu.

Mae Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023, a gytunwyd gan Senedd Cymru ar Dachwedd 28 2023, yn gofyn i wastraff ar gyfer ailgylchu gael ei wahanu gan berchennog/rheolwr y lleoliad, neu gan drefnydd y gweithgarwch, yn chwe chynhwysydd ar wahân:

1. Gwydr
2. Plastig, metel a chartonau a phecynnau tebyg eraill – ond cofiwch y bydd cyflenwi llawer o eitemau plastig untro wedi'i wahardd ar 30 Hydref 2023
3. Papur a cherdyn
4. Gwastraff bwyd (gweler mwy am hyn isod)
5. Offer trydanol bach nas gwerthwyd*
6. Tecstilau nas gwerthwyd*

* Diffinnir "nas gwerthwyd" fel a ganlyn: *cynnyrch treulwyr nas defnyddiwyd, mewn ffatri, mangre fanwerthu, cyfanwerthwr, warws neu fangre arall, nad yw wedi ei werthu i dreuliwr [consumer] neu sydd wedi ei werthu i dreuliwr a'i ddychwelyd gan dreuliwr,* felly mae'r categorïau hyn yn annhebygol o fod yn berthnasol yn y lle cyntaf i eglwysi neu siopau elusen sy'n gwerthu nwyddau ail-law. Fodd bynnag, bwriad Llywodraeth Cymru yw ymestyn y gofyniad i ailgylchu i'r **holl** decstilau o fewn tair blynedd, a **phob** offer trydanol bach o fewn dwy flynedd, felly dylai eglwysi ddechrau paratoi ar gyfer y newidiadau hyn nawr.

Bydd yn anghyfreithlon anfon gwastraff yn unrhyw un o'r categorïau uchod (neu "is-ffracsiynau", fel y'u gelwir yn y rheolau) i'w losgi neu ei dirlenwi, a bydd yn anghyfreithlon anfon gwastraff pren i safleoedd tirlenwi (er y gellir ei losgi o hyd).

Cynhwysir y diffiniadau llawn o'r chwe chategori, yn unol â'r rheolau, yn yr atodiad isod. Mae canllawiau pellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, a llawer o fanylion am union ddiffiniadau'r deunyddiau hyn, beth i'w wneud â gwastraff a wneir o gymysgedd o ddeunyddiau gwahanol, ac yn y blaen yn y **cod ymarfer**. Mae'r Côd hefyd yn ymdrin â nifer o faterion ymarferol eraill nad oes cyfeiriad uniongyrchol atynt yn y rheoliadau. *Mae'r cod hwn yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol ac mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol iddo* (para 1.5 – mae pob cyfeirnod o'r fath yn y nodyn hwn yn cyfeirio at y Côd hwn). **Dylai rheolwyr ac ymddiriedolwyr eiddo felly sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r Côd.**

Rhaid i wastraff a gyflwynir i'w ailgylchu fod yn **lân**. Dywed y Côd: *Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr eitemau pecynnu a roddir ym mhob ffrwd wastraff ailgylchadwy yn wag o'u cynnwys ac yn lân. Mae angen i eitemau eraill nad ydynt yn ddeunydd pecynnu fod yn rhydd o halogiad sylweddol. Mae'n debygol y bydd lefel yr halogiad derbyniol yn amrywio yn seiliedig ar ofynion gwahanol ailbroseswyr a dylid dilyn eu gofynion er mwyn osgoi cael casglwyr gwastraff yn gwrthod llwythi halogedig. Dylai eich casglwr gwastraff allu rhoi cyngor ar hyn.* (para 7.7). Mae'n bwysig nodi **nad yw'n dderbyniol cyflwyno gwastraff y gellid ei ailgylchu yn y ffrwd gwastraff cyffredinol, yn hytrach na'i lanhau er mwyn ei gasglu i'w ailgylchu**. Dylai rheolwyr eiddo gymryd hyn i ystyriaeth a chaniatáu amser ychwanegol ar gyfer hyn cyn y diwrnod casglu.

**Gallai rhoi'r gwastraff anghywir yn y cynhwysydd anghywir arwain at hysbysiad cosb benodedig (dirwy)** gan Gyfoeth Naturiol Cymru, er bod Llywodraeth Cymru yn dweud mai'r bwriad yw atgoffa ac addysgu yn gyntaf cyn cosbi. Felly, dylai rheolwyr ac ymddiriedolwyr mangreoedd aml-ddefnydd – fel llawer o adeiladau eglwysig – ddechrau sicrhau bod pob defnyddiwr yn ymwybodol o'r rheoliadau newydd a sut i ailgylchu gwastraff yn y dyfodol **cyn mis Ebrill 2024**.

Mae'r Côd Ymarfer yn nodi y gall Cyfoeth Naturiol Cymru wirio unrhyw eiddo ar hap, a dywed bod angen **cadw cofnodion priodol** (para 7.22). *Gallai'r dystiolaeth hon fod yn ddogfennau y mae gennych ofyniad cyfreithiol eisoes i'w cadw, fel o dan y ddyletswydd gofal ar gyfer gwastraff sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gynhyrchu a chadw nodiadau trosglwyddo gwastraff, a fydd yn dangos pryd, sut a phwy a gasglodd y gwastraff a'r mathau o wastraff. Mae'n rhaid cadw'r nodiadau am o leiaf ddwy flynedd. Gallai tystiolaeth arall gynnwys cytundebau neu gontractau a allai fod gennych ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff, neu'r contractau sydd gennych gyda'ch cwsmeriaid os ydych yn gasglwr, sy'n helpu i ddangos bod gwastraff yn cael ei gasglu ar wahân mewn ffordd sy'n cydymffurfio.* (para 7.23). Gan fod llawer o addoldai a chyfleusterau cymunedl yn gweithredu yn fwy anffurfiol nag y mae'r Côd yn awgrymu, mae'n bwysig fod rheolwyr ac ymddiriedolwyr yn adolygu sut maent yn cadw cofnodion ac y neu cadw am ddwy flynedd.

Bydd angen cael gwared ar **wastraff peryglus** (fel batris, toddyddion, plaladdwyr ac ati) – fel ar hyn o bryd – yn ddiogel ac ar wahân i'r cynwysyddion ailgylchu (para 6.8).

### Diffinio gwastraff cartref a gwastraff masnachol

Mae'r rhan fwyaf o addoldai (gan gynnwys neuaddau eglwysi a chapeli ac ati a ddefnyddir yng nghyswllt yr addoldy) yn gymwys i gael casglu gwastraff am ddim o dan Reoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012. Ar gyfer eglwysi, y tebygrwydd yw mai'r unig eithriadau i hyn fydd bwytai neu siopau eglwysig sy'n gweithredu ar sail fasnachol, a chanolfannau preswyl, sydd angen trefnu casgliadau gwastraff masnachol. Mae rheoliadau 2012 yn dal mewn grym yng Nghymru.

Fodd bynnag, bydd angen i hyd yn oed y safleoedd hynny sy'n gymwys i gasglu gwastraff cartref am ddim wahanu eu gwastraff yn chwe chynhwysydd fel y disgrifir uchod. Mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu sut mae'r rhain yn cael eu casglu – boed yn rhad ac am ddim gan ei wasanaeth casglu gwastraff masnachol, neu (fel yn y rhan fwyaf o achosion ar hyn o bryd) gan ei gasgliad gwastraff cartref, a sut i ymdrin â'r gwahaniaethau mewn gofynion gwahanu rhwng eiddo domestig (cartrefi) a'r rheoliadau newydd hyn.

Gall y bydd awdurdodau lleol yn cysylltu ag eglwysi i geisio eu trosglwyddo i'w gwasanaeth casglu gwastraff masnachol o fis Ebrill 2024. Os felly, **dylai eglwysi sicrhau y bydd y casgliad hwn yn parhau i fod yn rhad ac am ddim, ac os bydd angen, dylid cyfeirio'r awdurdod lleol at reoliadau 2012**.

### Tenantiaid a llogwyr adeiladau

Mae llawer o eiddo eglwysig wedi ei osod, yn rhannol neu yn gyfangwbl, i denantiaid. Mae'r Côd yn dweud *Ar gyfer safle ym meddiant busnesau lluosog … lle mae un contract ar gyfer casglu gwastraff a reolir gan y perchennog neu asiantaeth rheoli cyfleusterau, byddem yn disgwyl i'r cytundeb tenantiaeth gynnwys gofyniad i'r partïon gydymffurfio â'r gofynion gwahanu* (para 5.11). Nid yw'r Côd yn manylu ynghylch Cytundebau Llogi a'u tebyg, a ddefnyddir gan lawer o fangreoedd eglwysig. Ond mae'r egwyddor yn y Côd yn eglur: *Rydych yn gyfrifol am yr holl wastraff sy'n cael ei gyflwyno i'w gasglu o'ch eiddo. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wastraff a gynhyrchir gan staff, ymwelwyr a chontractwyr.* (para 7.12). Golyga hyn y bydd **angen trafod yn fanwl gyda holl ddefnyddwyr eich adeiladau**, ac fe all y byddwch am ysytyried cynnwys cymalau ynghylch gwahanu gwastraff yn eich cytundebau llogi.

### Biniau a chynwysyddion ar gyfer gwastraff

Dywed y Côd Ymarfer *Yn y man lle'r ydych yn cyflwyno eich gwastraff i'w gasglu (er enghraifft, casglu ymyl y ffordd), er mwyn cydymffurfio â'r gofynion gwahanu bydd angen cynhwysydd ar wahân arnoch ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy. Nid yw hyn yn wir mewn perthynas â biniau mewnol ar gyfer meddianwyr,*

*staff, ymwelwyr ac ati gan y cydnabyddir na fydd hyn yn ymarferol nac yn bosibl mewn rhai amgylchiadau. Ystyrir ei bod yn arfer da darparu cynwysyddion ar wahân ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy lle bynnag y cesglir gwastraff ar eich eiddo.* (para 7.14-7.15).

Mae'r Côd yn gosod y gofynion canlynol ar gyfer y math o gynwysyddion gellir eu defnyddio i gyflwyno gwastraff i'w gasglu: *Gall y cynwysyddion hyn fod yn finiau, yn fagiau, yn focsys, yn sgipiau neu'n fath arall o gynhwysydd fel y bo'n briodol, gan ystyried natur y gwastraff a gofynion eich casglwr gwastraff. Er enghraifft, efallai na fydd bagiau plastig hyblyg yn addas ar gyfer gwahanu eitemau ag ymylon miniog, neu sy'n drwm iawn. Mae'n dderbyniol defnyddio cynwysyddion sydd wedi'u hisrannu'n fewnol gan rwystr ffisegol parhaol, er enghraifft bin gyda dwy neu fwy o adrannau sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol. Mae'n rhaid i'r cynwysyddion a ddefnyddir fod yn ddigon gwydn i gynnal y gwahaniad gofynnol wrth i'r gwastraff gael ei drin a'i reoli'n ddiweddarach. Argymhellir bod adrannau mewn cynhwysydd wedi'u gwneud o adeiladwaith solet yn hytrach na phlastig hyblyg sy'n debygol o rwygo'n agored, sy'n cynyddu'r risg y bydd y cynnwys yn cymysgu â ffrydiau gwastraff eraill. Pan fydd y ffrydiau gwastraff a gyflwynir ar wahân yn cael eu casglu, mae'n rhaid eu cadw ar wahân a heb eu cymysgu â ffrydiau eraill, nac unrhyw wastraff arall* (para 7.3-7.4). Ceir hefyd arweiniad manwl ynghylch defnyddio "bagiau goroesi" (a chyfyngiadau ar suyt y gellir eu defnyddio – para 7.5). Mae'r Côd yn ychwanegu *O gofio y gallai fod angen storio cynwysyddion gwastraff mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ystyrir ei bod yn arfer gorau defnyddio cynwysyddion y gellir eu cloi a sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw dan glo i leihau'r risg o halogi damweiniol neu fwriadol* (para 7.8), ac yn nodi fod angen labelu'r cynwysyddion yn eglur ar gyfer eu casglu. Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol a chasglwyr gwastraff gwahanol yn gwneud gofynion ychydig yn wahanol i'w gilydd, a dylai **rheolwyr ac ymddiriedolwyr eiddo geisio cyngor eu casglwr gwastraff**, os nas darparwyd eisoes.

**Biniau allanol:** Dywed y Côd *nid oes rhaid i sbwriel a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ... gan amlaf o strydoedd, palmentydd a mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gael eu gwahanu wrth eu cyflwyno i'w casglu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau ailgylchadwy yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae yna finiau sbwriel fel y gall Awdurdodau Lleol, lle bynnag y bo'n bosibl, drefnu i sbwriel gael ei ailgylchu*. (para 5.7). Ond lle darperir bin mewn gardd eglwysig, mynwent, lle chwarae neu fan tebyg, a'r gwastraff wedyn yn cael ei gynnwys yng nghasgliad gwastraff yr eglwys (yn hytrach na chael ei gasglu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol o fan cyhoeddus), mae'r cynnwys hwnnw yn ddarostyngedig i'r gofynion i'w wahanu.

**Gwastraff bwyd**

Bydd y gofyniad cyfreithiol i wahanu ac ailgylchu gwastraff bwyd yn berthnasol i safleoedd sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy o wastraff bwyd yr wythnos (os ydych yn cynhyrchu llai, bydd yn gyfreithlon rhoi gwastraff bwyd yn y ffrwd wastraff gyffredinol, na ellir ei hailgylchu). Fodd bynnag, mae'n arfer da i wahanu ac ailgylchu'r holl wastraff bwyd, hyd yn oed meintiau bach, a byddem am annog eglwysi i wneud hynny.

Noder ***Ar gyfer gwastraff bwyd sy'n dal yn ei ddeunydd pecynnu, dylid gwahanu'r gwastraff bwyd oddi wrth y deunydd pecynnu****. Yna dylid rhoi pob deunydd yn y cynhwysydd ffrwd wastraff ailgylchadwy perthnasol.... Lle nad yw'n rhesymol ymarferol dad-becynnu gwastraff bwyd fel hyn, gellir gosod y gwastraff bwyd sy'n dal yn ei ddeunydd pecynnu sylfaenol (hynny yw, yr haen o ddeunydd pecynnu sydd agosaf at y cynnyrch) yn y ffrwd gwastraff bwyd, ar yr amod bod (a) eich casglwr gwastraff bwyd yn cytuno i gasglu'r gwastraff ar y sail hon a (b) bydd y gwastraff bwyd wedi'i becynnu'n cael ei anfon i gyfleuster priodol i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu (sy'n cynnwys compostio a threulio anaerobig)* (para 7.28, pwyslais Cytûn). Mae'r Côd yn gofyn am gadw cofnod o wastraff bwyd a gyflwynir wedi ei becynnu (para 7.29).

Yn ogystal, bydd **gwaharddiad ar waredu unrhyw faint o wastraff bwyd i lawr y sinc neu i mewn i ddraen neu garthffos gyhoeddus**. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i arllwys bwyd yn uniongyrchol i'r sinc neu ddraen, ond yn golygu na fydd modd bellach defnyddio offer megis mwydwyr, treulwyr ensymau na dulliau tynnu dŵr. Dylai eglwysi sicrhau bod defnyddwyr eu hadeiladau yn ymwybodol o hyn. Ni fydd yn rhaid i chi

ddadosod unrhyw offer o'r fath sydd gennych yn eich eiddo, ond mae'n debyg ei bod yn syniad da ei ddadosod neu ei ddatgysylltu, fel nad yw'n cael ei ddefnyddio ar ddamwain**. Bydd gollwng gwastraff bwyd i ddraeniau neu garthffosydd cyhoeddus yn drosedd** ac os bydd hyn yn digwydd, gall yr awdurdod lleol roi hysbysiadau cosb benodedig i'r eiddo neu drefnydd y gweithgarwch perthnasol. Mae'n arbennig o bwysig **osgoi rhyddhau braster, olew a saim i'r garthffos** (para 7.34), ac mae'r Côd yn argymell ystyried gosod trapiau saim i atal hyn.

## Atodiad: Diffinio'r is-ffracsiynau gwastraff
## (gan eithrio ymhob achos gwastraff peryglus. Mae'n rhaid gwaredu hwnnw ar wahân)

**1. Gwydr**

- Jariau gwydr a ddefnyddir fel pecynwaith
- Poteli gwydr a ddefnyddir fel pecynwaith

2. **Cartonau a'u tebyg, metel a phlastig**

**a) Cartonau a'u tebyg**

Pecynwaith cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynwaith sydd wedi ei wneud o bapurfwrdd neu ffibrau papur, wedi ei lamineiddio â phlastig polythen neu bolypropylen dwysedd isel, ac y gall fod iddo haenau o ddeunyddiau eraill, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw, yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cartonau
- Cwpanau diod papur sydd â haen blastig bolythen neu bolypropylen dwysedd isel
- Cynwysyddion papur anhyblyg

**b) Metel**

- Aerosolau dur ac alwminiwm
- Caeadau a chapiau jariau a photeli dur ac alwminiwm
- Ffoil alwminiwm
- Hambyrddau bwyd alwminiwm
- Tiwbiau alwminiwm
- Tuniau a chaniau dur ac alwminiwm

c) **Plastig**

- Pecynwaith plastig polyethylen tereffthalad amorffaidd a pholyethylen tereffthalad crisialog yn cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, caeadau anhyblyg a lled anhyblyg a chwpanau clir ac eithrio pan fo'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn isgoch agos
- Pecynwaith plastig polypropylen a pholypropylen wedi ei ehangu yn cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, caeadau anhyblyg a lled anhyblyg a chwpanau clir ac eithrio pan fo'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn isgoch agos
- Pecynwaith polyethylen dwysedd uchel a pholyethylen dwysedd isel yn cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, a chaeadau anhyblyg a lled anhyblyg ac eithrio pan fo'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn isgoch agos
- Poteli plastig polyethylen tereffthalad amorffaidd ac eithrio pan fo'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn isgoch agos
- Poteli, pympiau a thrigerau plastig polyethylen dwysedd uchel a pholyethylen dwysedd isel ac eithrio pan fo'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn isgoch agos
- Poteli, pympiau a thrigerau plastig polypropylen ac eithrio pan fo'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel nad yw'n ganfyddadwy yn isgoch agos
- Tiwbiau pecynwaith plastig polyethylen a pholypropylen ac eithrio:
  pan fônt yn llai na 50x50mm;
  pan fônt wedi cynnwys cynhyrchion a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu;
  pan fo ganddynt haen fetel,
  neu pan fônt yn blastig amlfonomer

3. **Papur a cherdyn**
Yr holl bapur a cherdyn ac eithrio:
Amlenni clustogog wedi eu leinio â pholyethylen
Cardiau crafu
Cwyr, silicon, papurau gwrthsaim
Derbynebau til
Llyfrau clawr caled
Papur a cherdyn sydd wedi eu halogi â bwyd, paent, olew neu saim
Papur a cherdyn sy'n cynnwys gliter neu ffoil
Papur a cherdyn wedi ei lamineiddio
Papur wal
Papur wedi ei ddarnio
Pecynwaith cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynwaith sydd wedi ei wneud o bapurfwrdd neu ffibrau papur, wedi ei lamineiddio â phlastig, ac y gall fod iddo haenau o ddeunyddiau eraill hefyd, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw
Sticeri a nodiadau gludiog
Tyweli papur, hancesi papur, weipiau gwlyb, papur cegin

4. **Gwastraff bwyd**
Pob gwastraff bwyd (gydag eithriadau cul iawn)

5. **Offer trydanol ac electronig gwastraff bach nas gwerthwyd**
Pob offer trydanol ac electronig gwastraff bach nas gwerthwyd (gweler y diffiniadau uchod

6. **Tecstilau nas gwerthwyd**
   - Dillad
   - Pecynwaith sydd wedi ei wneud o decstilau
   - Tecstilau nad ydynt yn ddillad gan gynnwys carpedi a theils carped, tecstilau hamdden (fel pebyll a tharpolinau), matresi, rygiau, deunyddiau dodrefnu meddal (fel llenni, cynfasau gwely, blancedi, dwfes, clustogau, tyweli), isgarped

13.02.2024

**Parch./Revd Gethin Rhys**
**Swyddog Polisi / Policy Officer**
**Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Cytûn: Churches Together in Wales**
Swyddfa gofrestredig: Tŷ Hastings House, Llys Fitzalan Court, Caerdydd/Cardiff CF24 0BL
Mudol/Mobile: +44 (0)7889 858062
*Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg. Happy to communicate in Welsh or English*
Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071 |
Cytûn is a registered company in England and Wales | Number: 05853982 | Registered name: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Cytûn is a registered charity | Number: 1117071